# Darparu porthiant a dŵr i geffylau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â darparu porthiant a dŵr i geffylau.

Bydd angen i chi fwydo dwysfwydydd a brasfwyd i ystod o geffylau mewn stablau a chaeau.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am y cyfrifoldebau a'r dulliau gwaith.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. paratoi dognau bwyd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
3. cael eglurhad pan nad yw'r cyfarwyddiadau'n glir
4. rhoi porthiant a dwr i geffylau, yn y lle gofynnol, gan ddefnyddio'r dulliau priodol
5. nodi mathau o borthiant ac asesu eu hansawdd
6. hysbysu'r person priodol ynghylch unrhyw newidiadau yn arferion bwydo ac yfed ceffylau, ar lafar neu yn ysgrifenedig
7. cynnal a chadw'r offer fel ei fod yn addas i gael ei ddefnyddio, a'i storio'n ddiogel
8. gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gywir
9. cynnal eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd
10. cyfathrebu gydag eraill a chynnal gwaith tîm yn affeithiol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddefnyddio a gofalu am  offer amddiffynnol personol
2. sut i adnabod porthiant ac ansawdd porthiant, a sut i baratoi dognau
3. y mathau gwahanol o borthiant a dwysfwyd sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin
4. y gwahaniaethau rhwng bwydo ceffyl unigol a grwpiau o geffylau
5. y gwahaniaethau rhwng bwydo ceffylau mewn stablau a cheffylau ar y cae
6. sut i waredu porthiant gwastraff a phecynnau
7. y ffordd gywir o storio a defnyddio offer a bwydydd
8. arwyddion ac effeithiau halogiad gan gnofilod a'r camau priodol i'w cymryd
9. rheolau ymarfer bwydo a rhoi dŵr da
10. sut i adnabod dysychu mewn ceffylau a'r camau i'w cymryd
11. beth i'w wneud os oes newidiadau yn ymddygiad bwydo ac yfed y ceffyl, ar lafar neu yn ysgrifenedig
12. ymreolaeth a swyddogaeth sylfaenol y system dreulio
13. y peryglon i geffylau, chi eich hun ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
14. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Bwydo ceffylau mewn amgylcheddau gwahanol:

- stabl
- cae

## Geirfa

**Mae gwastraff yn cynnwys:**

- bwyd dros ben
- gwellt
- cortyn
- pecynnau eraill

Darparu porthiant a dŵr i geffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq202 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; bwyd; dŵr; stabl; iard |